

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Quayside Medical Aesthetics

Dyddiad yr arolygiad: 18 Mai 2022

Dyddiad cyhoeddi: 19 Awst 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oeddiad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Quayside Medical Aesthetics 9 Stryd Ioan, Llanelli SA15 1UH ar 18 Mai 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, canfuom fod y gwasanaeth yn darparu triniaethau i gleifion mewn lleoliad clinig croesawgar sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Lleoliad clinig croesawgar sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Cafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, canfuom fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Yn benodol, canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer cynnal a chadw'r offer laser a sicrhau ei ddiogelwch yn barhaus.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Sicrhau bod yr asesiad risg tân yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau pan fo angen
- Sicrhau bod y polisi diogelu yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau addas ar gyfer sicrhau diogelwch y laser a'i gynnal a'i gadw

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, canfuom fod y rheolwr cofrestredig yn wybodus am y triniaethau a ddarperir a'i fod yn awyddus i gynnal a datblygu ei ddysgu a'i ddatblygiad er mwyn helpu i sicrhau bod triniaethau'n cael eu darparu mewn modd diogel ac effeithiol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Sicrhau bod tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rheolwr cofrestredig ac unrhyw weithredwyr laser yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau addas ar gyfer hyfforddiant, dysgu a datblygiad parhaus

- Rheolaeth wybodus a brwdfrydig

Rhoddir manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom 12 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Roedd y sylwadau a ddarparwyd gan y cleifion yn cynnwys:

"Gwasanaeth perffaith"

"Mae'n eithriadol 10/10"

"Fel unigolyn ag awtistiaeth, gwelais fod y clinig yn dawel, yn galonogol ac yn hawdd i'w ddefnyddio"

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwnaethom gadarnhau y gofynnwyd i'r cleifion ddarparu hanes meddygol cynhwysfawr cyn eu triniaeth gychwynnol ac eto cyn unrhyw driniaethau dilynol. Gwnaethom gadarnhau bod yr hanes meddygol yn cael ei lofnodi gan y claf a gweithredwr y laser yn y sampl o'r cofnodion y gwnaethom eu hadolygu. Dywedodd pob claf wrthym y gofynnwyd am eu hanes meddygol cyn triniaeth.

Urddas a pharch

Dywedwyd wrthym fod ymgynghoriadau a thriniaethau cleifion yn cael eu cynnal yn yr ystafell driniaeth briodol bob amser a gwelsom fannau addas yn y clinig lle gellid cynnal sgysiau â chleifion.

Cyn ac ar ôl triniaeth, dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael amser i newid, a gwelsom fod arwyddion priodol ar y drysau er mwyn sicrhau preifatrwydd a diogelwch. Dywedwyd wrthym y gall hebryngwr fynd gyda'r cleifion, a gwnaethom gadarnhau y byddai sbectol addas yn cael ei darparu. Ychwanegodd y rheolwr cofrestredig y gallai aelod benywaidd o staff fod yn bresennol ar gais.

Roedd pob claf yn cytuno'n gryf ei fod wedi cael ei drin ag urddas a pharch gan staff y gwasanaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gwybodaeth i gleifion addas ar gael i'r cleifion ei darllen er mwyn eu helpu i benderfynu ar eu hopsiynau triniaeth ac i ddarparu manylion am y gwasanaeth iddynt. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod ymgynghoriad trwyadl yn cael ei ddarparu i'r cleifion cyn penderfynu ar driniaethau, a chanfuom dystiolaeth o hyn yn y cofnodion a adolygwyd gennym. Roedd pob claf yn cytuno'n gryf bod y staff yn egluro'r hyn yr oeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth a bod y staff yn gwrando arnynt.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda chleifion cyn triniaeth ddilynol er mwyn trafod cynnydd, unrhyw newidiadau i fanylion meddygol, a chanlyniadau disgwylidig. Roedd hyn yn amlwg eto yn y nodiadau a adolygwyd gennym.

Gwnaethom gynghori'r gwasanaeth i ystyried ei ddarpariaeth o ddeunydd Cymraeg, megis arwyddion neu wybodaeth i gleifion, er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg mewn modd rhagweithiol.

Gwybodaeth a chydysyniad cleifion

Canfuom fod cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb, sy'n cynnwys trafodaeth am risgiau, buddion a chanlyniadau tebygol y driniaeth a ddymunir.

Roedd y ffurflen gydsynio o safon addas a gwnaethom gadarnhau y ceir cydsyniad cyn y driniaeth gychwynnol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddai unrhyw newidiadau yn ystod apwyntiadau dilynol yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r claf, ond na fyddai'r claf yn llofnodi eto i gadarnhau hyn. Rydym yn argymhell bod cleifion yn llofnodi, neu'n ail gydsynio, i gadarnhau unrhyw newidiadau i'w hamgylchiadau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cynnal cofnod cynhwysfawr.

Gwelsom fod cyngor ôl-ofal yn cael ei ddarparu i'r cleifion yn dilyn eu triniaeth.

Dywedodd pob claf wrthym eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag y dymunent mewn unrhyw drafodaethau am eu triniaeth.

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, cesglir hanes meddygol y cleifion i sicrhau addasrwydd y driniaeth a ddewiswyd.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion a chanfuom dystiolaeth bod cofnodion yn cael eu cadw i safon dda, a'u bod yn cwmpasu pob rhan o daith y claf. Roedd hyn yn cynnwys manylion yr ymgynghoriad, cydsyniad cychwynnol a chydsyniad ychwanegol, a risgiau a chanlyniadau tebygol y driniaeth a ddewiswyd.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli ar ddau lawr, ac mae'r ystafell driniaeth laser ar lawr cyntaf y safle. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y gwasanaeth yn ceisio gwneud hyn yn glir i gleifion newydd a'i fod yn argymhell clinig arall yn yr ardal leol os nad yw'n bosibl darparu ar gyfer y claf ar yr ail lawr.

Pwysleisiodd y gwasanaeth fod triniaethau yn hygyrch ac yn agored i bob darpar glaf a gwnaethom nodi bod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Canfuom fod gan y gwasanaeth weithdrefn a pholisi cwyno priodol ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

Dywedodd y gwasanaeth wrthym ei fod yn ceisio adborth drwy adolygiadau ar-lein a holiaduron mewnol a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut yr oedd wedi ymateb i adborth cleifion ynghylch addasu oriau agor.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd sticeri profi dyfeisiau cludadwy i'w gweld ar yr holl beiriannau perthnasol ac roeddent wedi'u hadolygu o fewn y deuddeg mis diwethaf.

Canfuom fod diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu o fewn y deuddeg mis diwethaf. Fodd bynnag, canfuom fod angen adolygu'r asesiad risg tân. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod yr asesiad risg tân yn cael ei adolygu, a bod unrhyw gamau gweithredu'n cael eu cwblhau yn ôl yr angen.

Canfuom fod staff sydd wedi'u hyfforddi'n feddygol ar gael ar y safle i helpu gyda materion cymorth cyntaf pe bai angen. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael ar y safle, ond gwnaethom gynghori'r gwasanaeth i gadw rhestr o'r cynnwys a'r dyddiadau diwedd oes er hwylustod wrth gynnal gwiriadau rheolaidd.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod pob rhan o'r gwasanaeth i'w gweld yn lân.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut roedd ystod o drefniadau rheoli heintiau addas wedi cael eu gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys glanhau rhwng cleifion, defnyddio menig bob amser, defnyddio rholyn sofffa tafladwy, trefniadau hylendid dwylo priodol a diheintio darnau llaw peiriant laser ar ôl eu defnyddio.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod newidiadau penodol wedi'u gwneud mewn ymateb i COVID-19, gan gynnwys defnyddio masgiau, lleihau nifer y bobl yn yr adeilad a gofyn cwestiynau sgrinio symptomau cyn darparu triniaeth. Roedd y rhain bellach wedi cael eu haddasu yn unol â'r ffaith bod cyfyngiadau wedi cael eu llacio.

Roedd trefniadau gwastraff clinigol priodol ar waith, gan gynnwys offer miniog, o dan gontract gyda darparwr allanol.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Canfuom fod gweithdrefn ddiogelu ar waith i'r staff ei dilyn pe bai pryder ynghylch diogelu. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen adolygu agweddau ar y weithdrefn er mwyn sicrhau ei bod wedi'i theilwra'n llawn i'r gwasanaeth a bod cyfeiriadau at sefydliadau eraill yn cael eu dileu.

Roedd y weithdrefn yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer tîm diogelu'r awdurdod lleol ac roedd y staff wedi'u hyfforddi i lefel briodol.

Gwnaethom gadarnhau na ddarperir unrhyw driniaethau i blant a gofynnir i gleifion beidio â dod â phlant i'w hapwyntiad.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom ystyried sut roedd yr offer laser a'r dogfennau cysylltiedig wedi cael eu cynnal drwy gydol y pandemig. Canfuom y canlynol:

- Penodwyd cynghorydd amddiffyn rhag laserau, ac roedd y rheolwr cofrestredig yn gwybod sut i gysylltu â'r cynghorydd amddiffyn rhag laserau pe bai angen ceisio'i gyngor ar ddefnyddio'r offer laser yn ddiogel
- Roedd y cynghorydd amddiffyn rhag laserau wedi adolygu'r rheolau lleol o fewn y 12 mis diwethaf er mwyn cadarnhau eu haddasrwydd parhaus
- Roedd yr offer laser wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod unrhyw bryderon ynghylch offer yn cael eu huwchgwyfeirio drwy gynghorydd amddiffyn rhag laserau y gwasanaeth
- Cynhelir gwiriadau rheolaidd i sicrhau addasrwydd parhaus yr offer laser, gan gynnwys gwirio lefelau dŵr, gwiriadau gweledol a gwiriadau proffil y pelydr laser.

Gwelsom fod allweddi'n cael eu cadw i ffwrdd o'r peiriant laser pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth yn dangos bod gweithredwr y laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth¹ a hyfforddiant gwneuthurwr ar ddefnyddio'r peiriant laser yn 2017. Fodd bynnag, rydym yn cynghori y dylid sicrhau bod yr hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn cael ei gwblhau bob tair blynedd er mwyn sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i'r arferion gorau.

Gwnaethom adolygu'r protocolau triniaeth a chanfod eu bod wedi'u hadolygu gan weithiwr proffesiynol cofrestredig y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Gwelsom fod offer amddiffyn llygaid ar gael i bob claf a gweithredwr a chadarnhawyd eu bod mewn cyflwr digonol.

Roedd cloeon wedi'u gosod yn yr ystafelloedd triniaeth i sicrhau urddas a diogelwch y cleifion tra bod offer laser yn cael ei ddefnyddio. Roedd arwyddion priodol i'w gweld ar ddrws pob ystafell driniaeth i atgoffa'r staff a'r ymwelwyr.

Canfuom fod prawf patsh yn cael ei gwblhau wythnos cyn darparu'r driniaeth, yn gyffredinol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod hyn yn ofynnol ar gyfer pob triniaeth a gwnaethom gadarnhau bod hyn wedi'i gofnodi yng nghofnod y claf.

Roedd gwybodaeth ôl-ofal ysgrifenedig ar gael i'r cleifion, y gallent ei chadw, am atal heintiau ac i'w helpu i wella.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y staff yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r triniaethau a ddarperir ac roeddent yn awyddus i ddatblygu eu dysgu a'u datblygiad eu hunain, ac wedi gwneud hynny, er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan y clinig.

Rheoli cofnodion

Canfuom dystiolaeth bod cofnodion yn cael eu cadw'n dda ar y cyfan. Roedd y sampl o gofnodion a adolygwyd yn ddigon manwl ac yn glir i'w dilyn. Roedd copïau caled o'r ffeiliau'n cael eu cadw'n ddiogel ar y safle.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

¹ Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn darparu sylfaen ar gyfer defnyddio peiriannau laser a pheiriannau golau pwls dwys yn ddiogel ac yn effeithiol.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae'r gwasanaeth yn cael ei oruchwylio gan reolwr cofrestredig AGIC, sy'n gweithredu fel yr unig weithredwr laser hefyd.

Roedd gan y gwasanaeth nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Gwnaethom adolygu sampl ohonynt a chanfod eu bod yn diwallu anghenion y gwasanaeth yn gyffredinol. Roedd y polisiau wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig na fu unrhyw bryderon, digwyddiadau na chwynion ynghylch triniaeth.

Disgrifiodd broses gwyno'r gwasanaeth a chanfuom fod y weithdrefn yn briodol, a bod AGIC wedi'i rhestru fel pwynt cyswllt ychwanegol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y cysylltir â phob claf er mwyn rhoi adborth iddo yn dilyn ei driniaeth.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu sefydliadol

Gwnaethom nodi bod disgwyl i bob aelod o staff gwblhau rhestr wirio cyfnod sefydlu ac yna cwblhau arfarniad yn flynyddol i sicrhau bod anghenion hyfforddi a pherfformiad yn cael eu monitro gan y gwasanaeth.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig drefniadau recriwtio addas ar gyfer cyflogi staff ac adolygu'r staff yn barhaus. Roedd hyn yn cynnwys cynnal gwiriadau priodol cyn cyflogi a chadarnhau hyfforddiant staff cyn iddynt ddarparu unrhyw driniaethau. Ar adeg yr arolygiad, y rheolwr cofrestredig oedd yr unig weithredwr laser.

Gwelsom dystiolaeth fod y rheolwr cofrestredig wedi cael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, rydym yn argymhell ei bod yn cael ei hadnewyddu bob tair blynedd er mwyn dangos bod gweithwyr yn parhau i fod yn addas i gyflawni eu rôl.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

[illegible]

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth:

Dyddiad yr arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion diffyg cydymffurfio				

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Quayside Medical Aesthetics

Dyddiad yr arolygiad: 18 Mai 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod cleifion yn llofnodi, neu'n ail gydsynio, er mwyn cadarnhau unrhyw newidiadau i'w hamgylchiadau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cadw cofnod cynhwysfawr.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Adran 23	Bydd pob cleient presennol yn llofnodi ffurflen "Ymweliad dychwelyd" sy'n datgan a fu unrhyw newidiadau i'w manylion meddygol ers ei holiadur meddygol gwreiddiol.	P Hughes	Gorffennaf 2022 (wedi'i gyflawni)
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod yr asesiad risg tân yn cael ei adolygu a bod unrhyw gamau'n cael eu cwblhau yn ôl yr angen.	Adran 26	Bydd yr asesiad risg tân yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i ddiwygio lle bo'n berthnasol. Mae dyddiad yr adolygiad a'r swyddog adolygu i'w nodi ar ôl pob adolygiad.	P Hughes	Gorffennaf 2022 (wedi'i gyflawni)

Rhaid i'r gwasanaeth Adran 16 ddiweddarau ei weithdrefn ddiogelu i sicrhau ei bod wedi'i theilwra'n llawn i'r gwasanaeth a bod cyfeiriadau at sefydliadau eraill wedi'u dileu.

Bydd y weithdrefn ddiogelu yn cael ei diweddarau i sicrhau ei bod wedi'i theilwra'n llawn i'r gwasanaeth a bod cyfeiriadau at sefydliadau eraill wedi'u dileu.

P Hughes

Gorffennaf 2022

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau Adran 12 / 21 bod tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rheolwr cofrestredig (ac unrhyw weithredwyr laser ychwanegol yn y dyfodol) yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd.

Cafwyd tystysgrif gan y P Hughes Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer Peter Hughes. Byddwn yn sicrhau bod gan unrhyw weithredwyr laser ychwanegol dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod yn cael eu hadnewyddu o leiaf bob tair blynedd.

P Hughes

Wedi'i gyflawni

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): P Hughes

Swydd: Cyfarwyddwr Clinigol

Dyddiad: 17/7/22